Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymateb i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Bil drafft i Leihau Plastigion Untro

## Ein rôl

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal a'u cadw, eu defnyddio a'u gwella yn gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Mae CNC yn croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at gais Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd am sylwadau ar y Bil drafft. Rydym yn rhoi ein barn o'n safbwynt ni fel rheoleiddiwr a chynghorydd ar ailgylchu a rheoli gwastraff ac adnoddau yng Nghymru.

## Ein hymateb

Mae hyn yn adeiladu ar ein hymateb i'r ymgynghoriad Lleihau Plastigion Untro yn 2020.

Nid oes unrhyw rolau neu ddyletswyddau uniongyrchol i'w disgwyl gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth weithredu neu orfodi'r gwaharddiadau hyn yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r gwaharddiad effeithio ar y sector gwastraff plastig yng Nghymru sydd â chysylltiadau â'n rolau a'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth o dan gylch gwaith CNC, megis cyfrifoldeb cynhyrchwyr am ddeunydd pacio a Chynlluniau Gweithredu Sbwriel Morol.

Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar y cysylltiadau hyn â'n rôl a'n cylch gwaith ac yn rhoi ein barn o'n safbwynt ni fel rheoleiddiwr a chynghorydd ar yr economi gylchol, ailgylchu, rheoli gwastraff ac adnoddau, a'r amgylchedd morol, yng Nghymru.

Gallwn roi atebion i'r cwestiynau canlynol:

- A oes angen Bil i gyflwyno gwaharddiad ar eitemau plastig untro cyffredin sy’n cael eu taflu fel sbwriel
- A fydd darpariaethau’r Bil drafft yn cyflawni bwriad y polisi
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o’r Bil drafft

## A oes angen Bil i gyflwyno gwaharddiad ar eitemau plastig untro cyffredin sy’n cael eu taflu fel sbwriel?

Rydym yn cefnogi cyflwyno gwaharddiad ar gyflenwi a defnyddio’r eitemau plastig untro targed hyn yng Nghymru. Bydd y gwaharddiad yn helpu i gael gwared ar eitemau plastig untro diangen ac yn helpu i symud Cymru tuag at Economi Gylchol.

Gobeithir y bydd y Bil yn lleihau faint o wastraff plastig sy'n cael ei gynhyrchu a'i daflu, ond mae’n bosibl y ceir canlyniad gwrthnysig sef bod mwy o eitemau nad ydynt yn rhai plastig yn cael eu defnyddio yn lle hynny a bod problemau sbwriel yn parhau.

Bydd y Bil hwn yn gweithio ochr yn ochr â Rheoliadau eraill megis Treth Plastig CThEM, diwygiadau arfaethedig yn cynnwys Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pacio, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a Gofynion Ailgylchu Busnesau a’r Sector Cyhoeddus.

I fod yn wirioneddol uchelgeisiol, i gyflymu’r symudiad tuag at economi gylchol, ac i fynd i'r afael ag ymddygiad 'taflu i ffwrdd', gellid datblygu deddfwriaeth yng Nghymru ymhellach i gyflwyno gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gyflenwi a defnyddio eitemau tafladwy untro diangen, ni waeth beth fo’r deunydd. Er enghraifft,  e-sigaréts tafladwy untro.

Yn ogystal â bod yn ofyniad cyfreithiol, dylai mesurau fel hyn anelu at annog gweithgynhyrchwyr a busnesau i wneud penderfyniadau cyfrifol neu ddewisiadau ynghylch dileu pob eitem untro diangen.

## A fydd darpariaethau’r Bil drafft yn cyflawni bwriad y polisi?

Rydym yn credu y gall y gwaharddiadau hyn chwarae rhan mewn cyflawni’r nodau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn y strategaeth Mwy nag Ailgylchu i symud Cymru tuag at economi gylchol, gan gynnwys:

- Dod yn arweinydd y byd ym maes ailgylchu
- Cael gwared ar blastigion untro
- Creu'r amodau er mwyn i fusnesau fanteisio ar y cyfleoedd
- Cymryd cyfrifoldeb llawn dros ein gwastraff

Rydym yn cefnogi cynnwys plastigion ocso-ddiraddadwy, ac mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith eu bod yn gallu peri llawer o’r effeithiau a’r risgiau o niwed i’r amgylchedd a berir gan blastigion a gynhyrchir o betrocemegion, yn enwedig y micro-blastigion a gynhyrchir, felly mae’n iawn eu bod yn cael eu cynnwys yn y Bil Drafft.

Rydym yn cefnogi cynnwys caeadau ar gyfer cwpanau a chynwysyddion bwyd sydd wedi'u gwneud o bolystyren, a byddai hyn yn cael yr un budd â'r gwaharddiad ar gwpanau a chynwysyddion bwyd sydd wedi'u gwneud o bolystyren.

Rydym yn cytuno, lle mae tystiolaeth glir mai eitem untro yw'r opsiwn mwyaf priodol a mwyaf diogel am resymau meddygol, bod eithriadau'n briodol.

### A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil drafft?

Ni allwn ragweld bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o wahardd yr eitemau hyn mewn perthynas â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr am ddeunydd pacio (gan gynnwys gofynion dychwelyd cwpanau coffi), Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd neu ofynion Ailgylchu Busnesau a'r Sector Cyhoeddus.

Gallai canolbwyntio ar eitemau plastig yn unig arwain at ganlyniad anfwriadol, sef bod yr eitemau hyn yn cael eu gwneud o ddeunyddiau gwahanol yn unig a bod y newid angenrheidiol mewn ymddygiad ddim yn digwydd. Mae pob cynnyrch a deunydd yn cael effaith a dylid rhoi blaenoriaeth i unrhyw ffordd y gellir atal hyn er mwyn symud tuag at economi gylchol yng Nghymru. Er mwyn bod mor uchelgeisiol â phosibl, dylai deddfwriaeth gynnwys pob eitem untro diangen, ni waeth beth fo'r deunydd.

Gall gwahaniaethau yn niffiniadau mathau o eitemau plastig ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlastig, gan gynnwys y Dreth Plastig a chyfrifoldeb estynedig am ddeunydd pacio, fod yn ddryslyd i fusnesau a chyflwyno heriau i reoleiddwyr.

Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer mathau 'diraddadwy' o blastig lle mae diwydiannau'n defnyddio ystod eang o dermau (bioddiraddadwy, ocsi-ddiraddadwy, deunydd y gellir ei gompostio ac ati), felly mae angen bod yn glir beth sydd o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth a bod hyn yn cyd-fynd â deddfwriaeth arall.

Gellid ystyried defnyddio diffiniad o blastig yn y Bil sy'n cyd-fynd â Rheoliadau'r Dreth Plastig. *Ystyr "plastig" yw deunydd sy'n cynnwys polymer, ac eithrio polymer sy'n seiliedig ar seliwlos nad yw wedi'i addasu'n gemegol, y mae'n bosibl bod ychwanegion neu sylweddau eraill wedi'u hychwanegu ato".*

Bydd cyngor a chanllawiau clir i weithgynhyrchwyr, busnesau a rheoleiddwyr, sy'n pennu a yw'r cynhyrchion o fewn y cwmpas, ac yn nodi lle mae eithriadau'n berthnasol, yn helpu busnesau i gydymffurfio, efallai'n lleihau'r cyfle i gamddefnyddio'r eithriadau, ac yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i reoleiddio'r gofynion hyn yng Nghymru.

Awst 2022